Cyngor Tref Rhuthun • Ruthin Town Council

Neges gan y Cynghorydd Gavin Harris - Maer Tref Rhuthun

Ar ran Cyngor Tref Rhuthun hoffwn rannu ein hymrwymiad parhaus i drigolion a chymuned Rhuthun yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd wrth i ni ymdopi gyda'r sefyllfa Covid-19.

Mae'r 15 Cynghorydd wedi ymrwymo i wasanaethu'r gymuned yn y ffordd orau a mwyaf diogel posibl, a thra bo nifer o aelodau'r Cyngor yn y grwpiau risg uchel, yn ein cyfarfod Cyngor diwethaf ddydd Llun roedd y Cynghorwyr eisiau pwysleisio y bydd pobl yn parhau i fedru cysylltu gyda nhw ar y ffôn a thrwy e-bost er mwyn iddynt gynnig unrhyw gymorth neu gefnogaeth i drigolion lleol. (Manylion cyswllt ar wefan y Cyngor Tref – www.cyngortrefrhuthun.gov.uk).

Bydd Clerc y Dref - Sandra Williams, a Rheolwr yr Hen Lys - Kate Harcus, yn gweithio o adre yn ystod y cyfnod hwn, ond bydd modd cysylltu gyda nhw ar y rhif ffôn a'r cyfeiriadau e-bost isod.

Fel cyngor cymuned mae ein dyletswyddau a'n profiad yn ymwneud yn bennaf â chefnogi gweithgareddau a phrosiectau cymunedol tra'n cynorthwyo gyda chyfeirio pryderon trigolion at awdurdodau a sefydliadau priodol, a bydd hyn yn parhau mewn modd digidol / ar-lein yn ystod gyfnod o gadw pellter cymdeithasol / hunan ynysu. Byddwn yn gweithio i gefnogi'r gwahanol awdurdodau a sefydliadau fel Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych, sy'n gweithio i ofalu am iechyd a gofal trigolion lleol, a chefnogi grwpiau a mudiadau cymunedol sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i unigolion – fel y rhai sy'n cael eu sefydlu trwy Facebook ac ati.

Tra na fyddwn ni fel cyngor yn cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos, bydd y Cynghorwyr yn parhau i gadw mewn cysylltiad trwy e-bost ac yn defnyddio ein strwythur Pwyllgor Pwerau Brys i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi.

Bydd Gweithgor yr Hen Lys yn parhau i weithio trwy gysylltu electronig i gadw momentwm y prosiect, a bydd yn canolbwyntio ar greu cynnwys yr arddangosfeydd, y wefan ac agweddau cyfryngau cymdeithasol y canolbwynt cymunedol. Yn anffodus ni fydd ein targed o agor i'r cyhoedd yn mis Mai yn ddichonadwy mwyach. Fodd bynnag, gan fod yr adeilad yn barod ac yn cynnwys technoleg digidol modern rydym ni wrthi'n datblygu, gyda chymorth nifer o wirfoddolwyr o'r gymuned, rhaglen o ddigwyddiadau 'rhithwir' a fydd yn cael eu cynnal gan unigolion o'r Hen Lys (heb gynulleidfa na chyfranogwyr yno). Bwriedir cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau, sgyrsiau, perfformiadau a gweithgareddau eraill y gall y gymuned eu gwylio'n fyw adref neu ei wylio'n ddiweddarach pan fo'n gyfleus. Gobeithiwn y gall hyn wneud cyfraniad cadarnhaol trwy gynnig gweithgareddau ac adloniant sy'n ymwneud â Rhuthun, gan ein cynorthwyo i gynnal ein hysbryd cymunedol gwych a chaniatáu i ni gefnogi ein gilydd trwy bresenoldeb cymunedol ar-lein.

Hoffwn eich sicrhau y gwnawn ni barhau i weithio i wireddu dyheadau'r gymuned, ac yn benodol prosiectau a fydd yn bwysicach nag erioed ar gyfer lles a hyfywedd Rhuthun yn y dyfodol, unwaith i ni fynd heibio'r cyfnod heriol hwn.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi Cyngor Tref Rhuthun, ac i bawb sy'n gwneud eu cyfraniadau eu hunain i gefnogi trigolion Rhuthun, yn enwedig y rhai sy'n fwy bregus neu angen cefnogaeth ychwanegol. Dylai'r agwedd positif, 'medrwn wneud hyn' a'r ysbryd cymunedol sy'n cael ei amlygu gan gymaint o bobl wneud pawb yn Rhuthun yn hynod o falch.

Gwefan Cyngor Tref Rhuthun: www.cyngortrefrhuthun.gov.uk
Clerc y Dref: 01824 703797 clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk
Kate Harcus: kate.harcus@theoldcourthouse.wales
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych: 01824 702441 office@dvsc.co.uk :
Cyngor Sir Ddinbych: 01824 706000 www.cyngorsirddinbych.gov.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: https://bcuhb.nhs.wales

Cyngor Tref Rhuthun • Ruthin Town Council

A Message from Gavin Harris - Maer Tref Rhuthun

On behalf of Ruthin Town Council, to the residents of Ruthin I would like to share our continued commitment to the Ruthin community during this unprecedented period of uncertainty as we all deal with the Covid-19 outbreak.

All 15 Councillors are committed to serving the community in the best and safest way we can, and whilst a number of the Council would be included in the high risk categories, at our last Full Council Meeting on Monday, councillors wanted to emphasise that they will continue to be contactable via phone and email to offer any support or assistance for local residents. (contact details on the town Council website - www.ruthintowncouncil.gov.uk)

Our Town Clerk - Sandra Williams and The Old Courthouse manager - Kate Harcus will be working from home during this period but will be available via the emails and telephone number listed below.

As a community council our remit and experience relates primarily to supporting community activities and projects whilst helping direct residents concerns to appropriate authorities and organisations, and this will continue but in a digital / online way during any period of social distancing / self-isolation. We will work to support as required the numerous official organisations and authorities such as DVSC, Betsi Cadwaladr Health Board and Denbighshire County Council who are working to ensure the health and care of local residents, and to support voluntary organisations and community groups offering individuals support and assistance - such as those being established via Facebook etc.

Whilst we as a council will not meet face to face for the foreseeable future, Councillors will keep in contact via email and utilise our Emergency Powers meeting structure for any pressing matters that arise.

The Old Courthouse Working group will continue to work remotely to maintain momentum on this project, and will focus on creating the exhibitions content / website and social media aspects of the community hub - but unfortunately our target to open in May will no longer be viable. However as the building is ready and equipped with modern digital technology we are currently developing with the support of numerous volunteers from the community a programme of 'virtual' events that will be hosted by individuals from The Old Courthouse (without an audience or participants there) but will offer a variety of classes, talks, performances and other activities that the community can join in live at home or to watch at another time. We hope this can make a positive contribution to offering online activities and entertainment that is Ruthin focussed, helping maintaining our wonderful community spirit and allowing us to support one another through an online community presence.

Please be assured that we will continue to work to deliver on the aspirations of the community and in particular for projects that more so than ever will be important for the future wellbeing and vibrancy of Ruthin once we get past this challenging time.

Thank you to everyone that has supported Ruthin Town Council, and all those making their own contributions to support the residents of Ruthin, in particular those who are more vulnerable or require some additional support. The positivity, can do attitude and community spirit that is being shown by so many should make everyone in Ruthin extremely proud.

Ruthin Town Council Website: www.ruthintowncouncil.gov.uk
Town Clerk: 01824 703797 clerk@ruthintowncouncil.gov.uk
Kate Harcus: kate.harcus@theoldcourthouse.wales
Denbighshire Voluntary Services Council: 01824 702441 office@dvsc.co.uk :
Denbighshire County Council: 01824 706000 www.cyngorsirddinbych.gov.uk
Betsi Cadwaladr University Health Board: https://bcuhb.nhs.wales